EUR- 03-02(p4)

**PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **6 Mawrth 2003** |
| **Amser** | **14.00** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Gynadledda 2 a 3** |
| **Teitl** | **Y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop** |

## Cefndir

1. Er y gwnaeth Cytundeb Nice (2000) baratoi'r ffordd gyfreithiol ar gyfer y rownd ehangu bresennol, gadawodd gwestiynau agored ynghylch sut y dylai UE sy'n llawer mwy o faint gynnal ei busnes yn y tymor hirach. Ar ôl Nice, ac mewn hinsawdd lle'r oedd mwy o alw am ymgynghori a bod yn agored, teimlwyd nad oedd hi'n synhwyrol i barhau â'r ffordd draddodiadol o gynnal Cynadleddau Rhyng-Lywodraethol, lle'r oedd Penaethiaid y Llywodraethau yn trafod y tu ôl i ddrysau caeedig. Roedd yr ysgogiad newydd i greu cysylltiadau rhwng cyrff yr UE a'r dinasyddion yn golygu y byddai angen ffyrdd newydd o weithio.
2. Cyn cynnal y Gynhadledd Ryng-lywodraethol nesaf penderfynwyd y dylid cynnal Cynhadledd a oedd yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o brif gyrff yr UE. Roedd Datganiad Laeken fis Rhagfyr 2001 yn cyfeirio at agenda o faterion i'w trafod. Rhoddwyd tasg i'r Gynhadledd ei chyflawni, sef paratoi cyfres o argymhellion i Lywodraethau'r Aelod-wladwriaethau eu hystyried. Trwy wneud hyn, y gobaith oedd y byddai'r dinasyddion yn ystyried y Cytundeb Ewropeaidd newydd yn fwy agored.

### Strwythur y Gynhadledd

3. V. Giscard d'Estaing, Cyn-Arlywydd Ffrainc, sy'n arwain y Gynhadledd gyda chymorth cyn Brifweinidogion Gwlad Belg a'r Eidal, Jean-Luc Dehaene a G.d'Amato. Mae aelodau'r Gynhadledd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Aelod-wladwriaethau (15); seneddau cenedlaethol (30); Senedd Ewrop (16); Y Comisiwn Ewropeaidd (2); gwledydd sy'n gwneud cais (13, gan gynnwys Twrci); Pwyllgor y Rhanbarthau* (6); Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol* (3). (*Statws arsylwi). Mae dirprwy gan bob aelod.

4. Mae agenda'r Gynhadledd yn cael ei hysgogi gan Bresidiwm. Ymhlith yr aelodau y mae Llywydd y Gynhadledd, dau Ddirprwy Lywydd a naw aelod o'r Gynhadledd, sydd yn cynnwys Gisella Stewart AS, a gyfarfu â'r pwyllgor hwn rai misoedd yn ôl (gyda'i chydweithiwr yn y senedd, David Heathcoat-Amory AS). Caiff y Gynhadledd eu gwasanaethu gan Ysgrifenyddiaeth dan arweiniad Syr John Kerr, cyn-lysgennad y DU i'r UE.
5. Mae cyfarfod llawn y Gynhadledd yn cyfarfod ym Mrwsel, fel arfer am sesiynau dau ddiwrnod bob tair neu bedair wythnos. Sefydlwyd nifer o weithgorau i ystyried pynciau penodol yn fanylach nag y gellir yn y cyfarfodydd llawn. Roedd cyfanswm o 11 grwp: Is-reolaeth; Siarter Hawliau Sylfaenol; Personoliaeth Gyfreithiol; Seneddau Cenedlaethol; Cymwyseddau Ategol; Llywodraethu'r Economi; Gweithredu Allanol; Amddiffyn; Symleiddio; Rhyddid, Diogelwch a Chyfiawnder; Ewrop Gymdeithasol.

6. Flwyddyn yn ôl (Chwefror 2002) fe ddechreuodd y Gynhadledd ar ei gwaith, ac fe ellir ei rannu'n dri cham: Fe ddechreuodd y cam cyntaf wrth wrando ar bobl er mwyn sicrhau beth y maent yn ei ddisgwyl ac am ei gael gan yr UE; mae cam dau, sydd yn mynd rhagddo'n awr, yn edrych ar fanteision ac anfanteision penodol o ran trefnu'r UE; bydd y cam olaf yn casglu cynigion ynghyd ac yn cyflwyno cyfres o argymhellion.
7. Bydd y camau hyn yn arwain at lunio Cytundeb Cyfansoddiadol Drafft. Rhagwelir y bydd yn cymryd lle'r Cytundebau Ewropeaidd presennol. Trwy ddilyn y camau hyn fe fydd gan yr UE gyfansoddiad ysgrifenedig am y tro cyntaf. Mae nifer o bobl wedi cymharu'r Gynhadledd hon â'r un a arweiniodd at ddrafftio Cyfansoddiad Unol Daleithiau America. Mae'n ddiddorol nodi pe bai cyfansoddiad yr UE yn digwydd y byddai hyn yn gosod y Deyrnas Unedig, am y tro cyntaf, dan sgôp cyfansoddiad ysgrifenedig unigol, yn lle'r arferion a'r cyfreithiau cyfansoddiadol sydd wedi cronni dros amser.

**Cynnydd**

8. Hyd yn hyn mae'r Gynhadledd wedi cynhyrchu dwy ddogfen bwysig sy'n nodi ei chyfeiriad. Ar 28 Hydref 2002 cyflwynodd Giscard D'Estaing "Gytundeb Drafft Rhagarweiniol" gerbron y Gynhadledd. Yn ddiweddarach ar 6 Chwefror 2003 ategwyd Erthyglau drafft 1 i 16 y Cytundeb Cyfansoddiadol.
9. Roedd y ddogfen gyntaf yn cynnig braslun o ffurf y Cytundeb Drafft tra bo'r ail destun yn ddrafft manwl o'r 16 Erthygl cyntaf. Y bwriad yw cyhoeddi mwy o Erthyglau ar adegau yn ystod y misoedd i ddod, gan gymryd i ystyriaeth y consensws a gafwyd yn y dadleuon yn y cyfarfod llawn a'r gwaith manwl a wnaed gan y gweithgorau. Anelir at gyhoeddi Cytundeb Drafft cyflawn erbyn diwedd y Gynhadledd yn nhymor yr haf eleni. Mae Llywydd y Gynhadledd yn anelu at gael consensws lle'n bosibl. Os nad yw hynny'n bosibl, bydd y Cytundeb Drafft yn adlewyrchu'r dewisiadau i'w hystyried yn hytrach na thestun "terfynol".
10. Ar ôl y Gynhadledd bydd y Cytundeb Drafft yn cael ei ystyried yng nghyfarfod yr Aelod-

wladwriaethau yn y Gynhadledd Ryng-lywodraethol ar ddiwedd 2003 neu yn 2004. Bydd y Gynhadledd Ryng-lywodraeth yn ystyried y testun, yn diwygio lle y bo'r angen ac yn cytuno ar destun terfynol. Yn olaf, os aiff y cyfan yn ôl y bwriad, bydd yr Aelod-wladwriaethau yn arwyddo Cytundeb Cyfansoddiadol Ewropeaidd newydd yn 2004.

**Crynodeb o'r Erthyglau Drafft 1 – 16**

- Mae Erthyglau 1-3 yn anelu at ddiffinio'r UE fel undod o Aelod-wladwriaethau sy'n rhannu'r un gwerthoedd o ran democratiaeth, parch at hawliau dynol, cyfraith, goddefgarwch ac ati; ardal marchnad unigol rydd, undod ariannol ac economaidd, cystadleuaeth, cydlyniant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, datblygu cynaliadwy ac ati.
- Mae Erthygl 4 yn rhoi personoliaeth gyfreithiol i'r EU.
- Mae Erthyglau 5-7 yn ymgorffori'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn y Cytundeb Cyfansoddiadol (datganiad gwleidyddol yw'r Siarter ar hyn o bryd ac nid oes ganddo rym cyfreithiol); maent yn rhoi hawliau cysylltiedig i'r syniad o ddinasyddiaeth yr Undeb.
- Mae Erthyglau 8-16 yn delio â chymwyseddau'r UE; yr Aelod-wladwriaeth fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am gymwyseddau na roddir trwy'r Cyfansoddiad; mewn achosion lle rhoddwyd cymhwysedd i'r UE, yna bydd ganddo statws uwch na chyfraith yr Aelod-wladwriaethau; bydd yr Undeb yn parchu strwythur wleidyddol fewnol yr Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y lefelau rhanbarthol a lleol.
- Mae Erthygl 11 yn rhoi cymwyseddau unigryw i'r UE: uno'r tollau, polisi masnachol cyffredin; polisi ariannol ar gyfer yr Aelod-wladwriaethau sydd wedi mabwysiadu'r ewro; diogelu'r adnoddau cadwraeth fiolegol morol dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin; cytundebau mewnol lle bo darpariaeth yn bodoli yng ngorchymyn deddf yr UE.
- Mae Erthygl 12 yn rhoi amlinelliad o'r cymwyseddau a rennir gan Aelod-wladwriaethau: marchnad fewnol; diogelwch a chyfiawnder; amaethyddiaeth a physgodfeydd; trafnidiaeth; ynni; polisi cymdeithasol; cydlyniant economaidd a chymdeithasol; yr amgylchedd; iechyd y cyhoedd; gwarchod defnyddwyr.
- Mae Erthygl 13 yn gwneud darpariaeth i'r UE gydlynu polisïau economaidd yr Aelod-wladwriaethau, gan roi darpariaethau penodol i'r rheini sydd wedi mabwysiadu'r ewro.
- Mae Erthygl 14 yn ymwneud â pholisi tramor a diogelwch cyffredin.
- Mae Erthygl 15 yn caniatáu i'r Undeb gymryd camau cydlynol, atodol neu gefnogol ym materion cyflogaeth; diwydiant; addysg, hyfforddiant ac ieuenctid; diwylliant, chwaraeon, a diogelu rhag trychinebau.

**Y Dimensiwn Rhanbarthol**

1. Nid oedd y Gynhadledd yn cynnig tir ffrwythlon i'r rhanbarthau o'r dechrau. Cynigwyd statws arsylwi i Bwyllgor y Rhanbarthau yn hytrach na statws aelod llawn, a gwrthodwyd

galwadau i sefydlu gweithgor ar faterion rhanbarthol. Mewn ymateb i'r lobïo cyson gan y Rhanbarthau â Phwerau Deddfwriaethol, Cynhadledd y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR) ac eraill ymrwymwyd i gynnal trafodaeth ar faterion rhanbarthol mewn cyfarfod llawn. Cynhaliwyd y ddadl hon ar 7 Chwefror.

2. Roedd hi'n glir mai dyma fyddai'r cyfle gorau i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi ei barn ar faterion sydd o bwys i ni fel Gweinyddiaeth Ddatganoledig sydd â chyfrifoldebau sylweddol o ran yr UE. Cydweithiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru â Gweithrediaeth yr Alban i lunio papur sefyllfa. Dyma fu'r testun negodi gyda Llywodraeth y DU, ac ar ôl trafodaeth mewn Cydbwyllgor Gweinidogol (Ewrop) ar 30 Ionawr a arweiniwyd gan Brif Weinidog Cymru, fe'i mabwysiadwyd fel polisi Llywodraeth y DU. Ar y sail hwn, cyflwynodd Peter Hain AS y papur fel cyfraniad swyddogol llywodraeth y DU i'r ddadl. Hefyd rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfraniad dylanwadol ar lafar yn ystod y ddadl.
3. Trwy'r dull hwn o gael cefnogaeth Llywodraeth y DU mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau bod y Gynhadledd yn clywed ein llais a'n bod yn gallu dylanwadu ar faterion sy'n effeithio arnom ni. Ysgrifennodd y Dirprwy Brif Weinidog at aelodau'r Pwyllgor gyda chopi o'r papur yn union wedi iddo gael ei gyhoeddi, ond dyma'r prif bwyntiau:

- cyfeiriad yn y Cytundeb yn cydnabod rôl y rhanbarthau yn yr UE;
- cymeradwyo'n benodol rôl y rhanbarthau o ran is-reolaeth;
- ymgynghori gorfodol gan y Comisiwn;
- systemau rhybudd ymlaen llaw ar gynigion;
- diwygio Pwyllgor y Rhanbarthau.

1. Cafodd papur y DU ar faterion rhanbarthol dderbyniad da iawn yn y Gynhadledd a chan gymuned ehangach yn Ewrop sydd â diddordeb rhanbarthol. Mae'r papur, sy'n cydnabod ymdrechion Cymru a'r Alban, wedi nodi'r DU fel un o'r Aelod-wladwriaethau mwyaf blaengar sydd â'r cydymdeimlad mwyaf tuag at y rhanbarthau. Rydym ni o'r farn bod hyn yn dod â manteision i'r DU a'i fod wedi galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddylanwadu'n sylweddol ar y ddadl yn y Gynhadledd.

**Michael German AC**

**Y Dirprwy Brif Weinidog**

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor**